

Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad o dan y teitl Creu'r Diwylliant Cywir

1. Mae Cod y Gweinidogion yn nodi disgwyliadau'r Prif Weinidog mewn perthynas â Chod y Gweinidogion gyda saith egwyddor bywyd cyhoeddus yn sail iddynt. Mae'n rhoi canllawiau ar ystod o faterion gan gynnwys cysylltiadau â'r Gwasanaeth Sifil a sut i ddelio â buddiannau preifat y Gweinidogion a'u buddiannau o ran eu hetholaethau a'u plaid. Mae hefyd yn cynnwys cyngor gweithdrefnol ar brosesau a rhwymedigaethau'r Cabinet a'r Llywodraeth.
2. Yn enwedig, mae'r Cod yn ei gwneud yn glir y disgwylir i'r Gweinidogion fod yn gyfrifol yn bersonol am eu hymddygiad. Er hynny, y Prif Weinidog yw barnwr safonau ymddygiad y Gweinidogion yn y pen draw. Y Prif Weinidog hefyd sy'n penderfynu ar gamau gweithredu priodol mewn perthynas ag achosion o dorri'r safonau hynny.
3. Lle bo'n briodol, gall y Prif Weinidog alw ar Gyngorydd Annibynnol i ymchwilio i gwynion ac i roi cyngor iddo seilio ei ddyfarniad arno ynghylch unrhyw gamau gweithredu angenrheidiol.

Ceir ymateb i argymhelliad yr adroddiad isod:

Argymhelliad 12

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Prif Weinidog yn gweithio gyda'r Comisiynydd Safonau i sefydlu protocol erbyn Haf 2019 lle caiff pob cwyn ei chyfeirio at swyddfa'r Comisiynydd a bod y Comisiynydd wedi hynny yn llunio adroddiad i'r corff perthnasol;

Ymateb: Gwrthod

1. Mae'r Prif Weinidog yn croesawu adroddiad y Pwyllgor a'r rhan a fydd ganddo wrth hyrwyddo diwylliant o urddas a pharch yn y Cynulliad. Mae'r Llywodraeth yn cefnogi'r safiad na chaiff ymddygiad amhriodol, sut bynnag a ble bynnag y mae'n digwydd, ei oddef.
2. Mae'r Prif Weinidog wedi rhoi ystyriaeth ofalus i argymhelliad 12, a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol sefydlu protocol lle y byddai cwynion am y Gweinidogion yn cael eu hatgfyfeirio at swyddfa'r Comisiynydd Safonau gyda'r Comisiynydd yn adrodd wrth y corff perthnasol.
3. Ceir sylw ym mharagraff 38 o'r adroddiad y gallai'r gofyniad o dan God y Gweinidogion sy'n datgan: ***Rhaid i'r Gweinidogion gadw eu rolau fel Gweinidogion a'u rolau fel Aelodau Cynulliad ar wahân***, beri dryswch. Mae hwn yn gymal sylfaenol yn y cod a phrif ddiben 1.1(viii) o God y Gweinidogion yw sicrhau bod Gweinidog yn osgoi'r potensial ar gyfer gwrthdrawiad buddiannau gwirioneddol neu

ganfyddedig os gofynnir iddo wneud penderfyniad, o fewn ei bortffolio, sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ei etholaeth ei hun. Bwriedir iddo sicrhau hefyd nad yw'r Gweinidogion yn defnyddio cyfleusterau ac adnoddau ar gyfer gweithgareddau etholaeth neu weithgareddau gwleidyddol y tu allan i'r ffiniau a nodir ym mharagraffau 4.1 to 4.4 o'r cod. Nid yw'r sail resymegol dros gasgliad y Pwyllgor bod potensial am ddryswch ynghylch rôl Aelod Cynulliad a rôl Gweinidog yn amlwg. Gallai cynnwys y Comisiynydd Safonau, a benodir gan y Cynulliad ac sy'n atebol iddo, i ymchwilio i gwynion am ymddygiad y Gweinidogion, pan fyddant yn gweithredu fel Gweinidog yn hytrach nag fel Aelod Cynulliad, greu'r math o amwysedd atebolrwydd y mae adroddiad y Pwyllgor yn ceisio ei osgoi. Pan gafodd y Weithrediaeth ei gwahanu oddi wrth y Ddeddfwrfa yn 2006 daeth statws corff corfforaethol i ben ac fe allai cynnwys unigolyn a benodir gan y Cynulliad mewn materion o'r fath greu dryswch ymhlith y cyhoedd o ran pwy biau'r cyfrifoldeb dros ymddygiad y Gweinidogion.

4. Er hynny, lle y byddai Gweinidog yn ymddwyn yn rhinwedd ei swydd fel Aelod Cynulliad pan ddigwyddodd y camymddwyn honedig, byddai'r Prif Weinidog, o dan yr amgylchiadau hynny, yn credu ei bod yn briodol i'r Comisiynydd Safonau ymdrin â'r mater yn hytrach na delio â'r mater o dan God y Gweinidogion.
5. Mae'r adroddiad yn cyfeirio at yr hawl sydd gan y Prif Weinidog i atgyfeirio unrhyw fater ynghylch ymddygiad y Gweinidogion at Gynghorydd Annibynnol er mwyn iddo ymchwilio iddo. Ac yntau wedi cael cais i ymchwilio i un achos yn unig a chynghori arno, sef achos a gynhaliwyd yn ddiwyd ac yn wrthrychol gan gyn Gyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus Llywodraeth Iwerddon, nid yw'r Prif Weinidog yn rhannu'r farn y byddai hyder y cyhoedd yn gwella pe bai'r Comisiynydd Safonau'n ymgymryd â'r rôl.
6. Mae gwaith i nodi nifer o Gynghorwyr Annibynnol cymwysedig bron wedi dod i ben ac fe gaiff Datganiad Ysgrifenedig ei gyhoeddi maes o law am hynny.